

ECAD7004C: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham rydw i'n addysgu?

Sesiwn 9

Cyfweliadau

Trafodaeth gyda rhywun lle rydych chi'n ceisio cael gwybodaeth ganddyn nhw

Tri is-fath:

- ▶ Strwythuredig
- ▶ Distrwythur
- ▶ Lled-strwythuredig

Rhaid sefydlu perthynas

Ystyried pryd i ofyn cwestiynau penagored, caeedig, a treiddgar

Cofnodi data mewn trawsgrifiadau



<https://www.youtube.com/watch?v=A-VhzWKaHB4>

Cyfweliadau lled-strwythuredig

- ▶ Pwyntiau cadarnhaol?
- ▶ Pwyntiau negyddol?

Cyfweliadau lled-strwythuredig

Cryfderau

- ▶ Perthynas gadarnhaol rhwng y cyfwelydd a'r cyfwelai
- ▶ Mae pobl yn gallu siarad am rywbeth yn fanwl a manwl
- ▶ Gellir trafod/egluro cwestiynau a materion cymhleth
- ▶ Hawdd i'w gofnodi

Cyfyngiadau

- ▶ Yn dibynnu ar fedr y cyfwelydd
- ▶ Gall cyfwelydd roi signalau anymwybodol
- ▶ Amser
- ▶ Gall dyfnder gwybodaeth fod yn anodd ei ddadansoddi
- ▶ Dilysrwydd

Materion dilysrwydd

- ▶ Nid oes gan yr ymchwilydd unrhyw ffordd wirioneddol o wybod a yw'r Atebydd yn dweud celwydd.
- ▶ Efallai na fydd yr Atebydd yn ymwybodol o hyn, ond efallai y bydd yn cofio rhywbeth mewn ffordd amherffaith.
- ▶ Weithiau, gall cyfweiliad fod yn "ail gyfle" i wneud rhywbeth; ar ôl cael yr amser i adfyfyrio ar rywbeth a wnaethant, mae'r Atebydd yn ceisio gwneud synnwyr o'u hymddygiad drwy resymoli eu gweithredoedd. Gall eu hesboniad am eu hymddygiad, wrth edrych yn ôl, fod yn wahanol iawn i'r hyn a deimlent ar y pryd.

Pwyntiau trafod

- ▶ Dibynadwyedd
- ▶ Dilysrwydd
- ▶ Sampl gynrychioliadol
- ▶ Chyffredinoli

- cymhwyso canlyniadau ymchwil i achosion neu sefyllfaoedd y tu hwnt i'r rhai a archwiliwyd yn yr astudiaeth

- y graddau y mae adnodd asesu yn cynhyrchu canlyniadau sefydlog a chyson.

Cyffredinolli

Dibynadwyedd

Sampl
gynrychioliadol

Dilysrwydd

- rywbeth bach sy'n adlewyrchu'n gywir yr endid mwy

- hygredd neu gredadwyedd yr ymchwil. A yw'r canfyddiadau'n ddilys?

Focus Group Interview - Pupil voice

Mae grŵp ffocws yn fath o ymchwil ansoddol lle gofynnir i grŵp o blant am eu hamgyffrediad, eu barn, a'u hagweddau tuag at adran gwers neu arddull addysgu.

Gofynnir cwestiynau mewn grŵp rhyngweithiol lle mae'r plant yn rhydd i siarad ag aelodau eraill y grŵp.

Cynhelir y cyfweiliad mewn ffordd anffurfiol a naturiol lle mae'r plant yn rhydd i roi eu barn.

Cyfweliadau grŵp a grwpiau ffocws

- ▶ Cadwch mewn cof mae pobl yn ymddwyn yn wahanol mewn grwpiau
- ▶ Deall pam eich bod chi'n dewis grŵp o gyfranogwyr yn hytrach nag unigolion gan y gallai ymatebion newid – a yw am reswm dilys?
- ▶ Bydd gan yr ymchwilydd rôl ymylol yn nhrafodaethau'r grwpiau ffocws

Cyfweliad grŵp ffocws

<https://youtu.be/bPjJ6TPkLVM>

- ▶ Beth yw eich barn am y cyfweliad hwn gyda disgyblion?

Cyfweliad grŵp ffocws

Ysgrifennu cwestiynau

Defnyddiwch gwestiynau penagored:

- ▶ Beth oeddech chi'n ei feddwl o ...?
- ▶ Sut oeddech chi'n teimlo am ...?
- ▶ Beth wyt ti'n hoffi orau am ...?

Byddwch yn ofalus o ymadroddion fel "pa mor fodlon " neu "i ba raddau ".

Ysgrifennu cwestiynau

- ▶ Peidiwch â gofyn cwestiynau gall cael eu hateb gyda "oes" neu "na" yn unig.

Ysgrifennu cwestiynau

- ▶ Defnyddiwch gwestiynau "meddwl yn ôl".
- ▶ Ewch â'r disgyblion yn ôl i brofiad ac nid ymlaen i'r dyfodol.

Ysgrifennu cwestiynau

Osgoi cwestiynau arweiniol 2:

- ▶ Cwestiwn drwg: Pa mor fyr oedd Napoleon?
- ▶ Cwestiwn da: sut byddech chi'n disgrifio taldra Napoleon?

Ysgrifennu cwestiynau

Osgoi cwestiynau arweiniol 1:

- ▶ Ydych chi'n meddwl bod...?
- ▶ Fyddet ti'n dweud bod ...?
- ▶ Rhaid bod hynny wedi bod yn ...?
- ▶ Ydych chi'n cytuno bod ...?

Ysgrifennu cwestiynau

<https://www.surveymonkey.com/mp/5-common-survey-mistakes-ruin-your-data/>

Osgoi cwestiynau arweiniol 2:

- ▶ Cwestiwn drwg: Pa mor fyr oedd Napoleon?
- ▶ Cwestiwn da: sut byddech chi'n disgrifio taldra Napoleon?

Ysgrifennu cwestiynau

Osgoi cwestiynau llwythog:

Cwestiwn drwg: ble ydych chi'n mwynhau yfed coffi?

- ▶ Nid yw rhai pobl yn hoffi coffi ac felly ni allant ateb y cwestiwn.

Ysgrifennu cwestiynau

Cadwch draw o gwestiynau dwbl (double-barreled):

Cwestiwn drwg: Pa mor ddefnyddiol fydd y gwerslyfr hwn i fyfyrwyr ac athrawon sydd newydd gymhwyso?

Cwestiynau gwell: Pa mor ddefnyddiol fydd y gwerslyfr hwn i fyfyrwyr?

Pa mor ddefnyddiol fydd y gwerslyfr hwn i athrawon sydd newydd gymhwyso?

Ysgrifennu cwestiynau

Osgoi geiriau ‘absoliwt’ mewn cwestiynau:

Cwestiwn drwg: ydych chi bob amser yn bwyta brecwast?
(Ydw/Nac ydw)

Cwestiwn gwell: sawl diwrnod yr wythnos ydych chi fel arfer yn bwyta brecwast? (Bob dydd/5-6 diwrnod/3-4 diwrnod/1-2 diwrnod/byddaf fel arfer ddim yn bwyta brecwast)

► A oes problemau o hyd gyda hyn?

Ysgrifennu cwestiynau

- ▶ Byddwch yn glir drwy siarad iaith eich cyfranogwyr.
- ▶ Defnyddiwch iaith glir, gryno a di-gymhleth gan geisio osgoi acronymau, termau technegol neu jargon a allai ddrysu eich cyfranogwyr.
- ▶ Ystyriwch oedran y disgyblion y byddwch yn gweithio gyda nhw.

Ysgrifennu cwestiynau

- ▶ Ffocysu'r cwestiynau - mewn dilyniant sy'n mynd o'r cyffredinol i'r penodol

Ysgrifennu cwestiynau

Enghreifftiau:

Beth wnaethoch chi ei ddysgu yn ystod y wers? Sut wyt ti'n gwybod?

Ydych chi'n gwybod beth sydd angen i chi ei wneud, er mwyn gwella eich dysgu ymhellach?

Beth weithiodd yn dda i chi a pham?

Sut y gellid gwella'r wers yn eich barn chi? Pam?

Cyfweld â phlant

Taken from Cohen et al. (2011) additional resources. Available at: cw.routledge.com/textbooks/cohen7e/

- ▶ Pwysigrwydd ymddiriedaeth a theimlad o ddiogelwch a bod yn gyfforddus
- ▶ Gall cyfweld grwpiau helpu i leddfu'r sefyllfa
- ▶ Amgylchoedd naturiol/cyfarwydd

Anawsterau wrth gyfweld â phlant

- ▶ Methu canolbwyntio am amser hir;
- ▶ Yr ymchwilydd a welwyd fel ffigur awdurdod (cysylltu ag ystyriaethau moesegol);
- ▶ Nid yw ymatebion y plant bob amser yn glir;
- ▶ Rhychwant sylw cyfyngedig;
- ▶ Efallai y bydd plant yn dweud beth maen nhw'n meddwl mae'r ymchwilydd eisiau ei glywed yn hytrach na beth maen nhw'n ei feddwl/teimlo;
- ▶ Cyfweliad yn cael ei weld fel prawf;
- ▶ Gall plant fod yn amharod i wrth-ddweud barn eraill;
- ▶ Gall plant fod yn anhuawdl, petrusgar a nerfus.

Ystyriaethau wrth gyfweld a phlant

- ▶ Ymateb i'r plentyn sy'n dweud rhywbeth yna dyfaru ar unwaith ei fod wedi dweud hynny;
- ▶ Mynd y tu hwnt i'r ymateb ' disgwylledig ';
- ▶ Osgoi derbyn ymateb sy'n 'ddymunol';
- ▶ Sicrhau bod y plentyn yn rhoi gwir farn;
- ▶ Cadw plant i'r pwynt.

Casglu data - proses dadansoddi systematig

Tra yn y grŵp:

Gwrandewch am sylwadau anghyson a holwch am ddealltwriaeth;

Gwrandewch am sylwadau amwys neu cryptig a holwch am ddealltwriaeth;

Ystyriwch ofyn cwestiwn terfynol i bob cyfranogwr (fel y gall pob disgybl gyfrannu);

Cynigiwch grynodeb o'r prif bwyntiau a cheisio cael cadarnhad o'r cynnwys.

Os yn bosibl, recordiwch y cyfweliad.

Casglu data - proses dadansoddi systematig

Yn syth ar ôl y grŵp ffocws:

- * Lluniwch ddiagram o'r trefniant eistedd;
- * Gwiriwch y tâp i sicrhau ei fod wedi recordio'n iawn;
- * Angen cynnal dadfriffio gyda'ch partner ymchwil;
- * Sylwch ar themâu, dehongliadau a syniadau;
- * Labelwch a ffeiliwch eich nodiadau maes, tapiau a deunyddiau eraill.

Tasg

Erbyn diwedd y dydd, dylech fod wedi:

- * Ysgrifennu rhestr o gwestiynau yn ymwneud â ffocws eich ymchwil;
- * Gallwch gyfyngu eich rhestr fel bod gennych nifer addas ar gyfer grŵp oedran eich disgyblion;
- * Trefnu'r cwestiynau fel eu bod yn gwneud synnwyr;
- * Peilota'r cwestiynau gyda phâr arall o fyfyrwyr.

Darllen ar ôl y sesiwn

Mae angen i chi wneud rhywfaint o ddarllen am:

- ▶ Cyfweiliadau

Darlleniad a awgrymir:

- ▶ Cohen, L., Manion, L. & Morrison, K. (2018) Research Methods in Education, 8th edition. Oxford: Routledge. (pp506-528; 532-533)

(Mae rhifynnau blaenorol ar gael, e.e. 2011; 6ed argraffiad ar gael ar-lein:

<https://islmblogblog.files.wordpress.com/2016/05/rme-edu-helpline-blogspot-com.pdf> (Google-wch Cohen, Manion & Morrison 6th edition)

- ▶ Bell, J. & Waters, S. (2018) Doing your Research Project, 7th edition. London: Open University Press.
(pp209-220)



**“I had a miraculous dream in which
our list of questions all had answers.”**

Unrhyw gwestiynau?



